



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



Canllaw i'r Ffurflenni Safonol Diwygiedig

ar gyfer Trefniadau Diogelu rhag Colli
Rhyddid y Ddeddf Galluedd Meddyliol

Hydref 2015

Cynnwys

Diolchiadau		1
Rhagarweiniad		3
Terminoleg		3
Y ffurflenni newydd a diwygiedig		5
FFURFLEN 1:	CAIS AWDURDOD RHEOLI AM AWDURDODIAD SAFONOL AC AWDURDODIAD BRYG YR AWDURDOD RHEOLI	6
FFURFLEN 1a:	CAIS GAN AWDURDOD RHEOLI AM ESTYNIAD I'R AWDURDODIAD BRYG	9
FFURFLEN 1b:	ADRODDIAD AM AMDDIFADIAD POSIBL O RYDDID GAN AELOD O'R TEULU, CYFAILL NEU GEFNOGWR	10
FFURFLEN 2:	CAIS YR AWDURDOD RHEOLI AM AWDURDODIAD SAFONOL PELLACH	11
FFURFLEN 3:	ASESIADAU OEDRAN, DIM GWRTHOD, LLES PENNAF A DETHOL CYNRYCHIOLYDD	12
FFURFLEN 3a:	ASESIAD GALLUEDD MEDDYLIOL	16
FFURFLEN 4:	ASESIADAU IECHYD MEDDWL A CHYMHWYSTRA	17
FFURFLEN 5:	CANIATÁU AWDURDODIAD SAFONOL	22
FFURFLEN 6:	AWDURDODIAD SAFONOL HEB EI GANIATÁU	24
FFURFLEN 7:	ATAL AWDURDODIAD SAFONOL DROS DRO	26
FFURFLEN 8:	TERFYNU PENODIAD CYNRYCHIOLYDD	27
FFURFLEN 9:	YR AWDURDODIAD SAFONOL WEDI DOD I BEN	28
FFURFLEN 10:	ADOLYGIAD O'R AWDURDODIAD SAFONOL PRESENNOL	30
FFURFLEN 11:	ATGYFEIRIAD GWASANAETH EIRIOL ANNIBYNNOL O RAN GALLUEDD MEDDYLIOL (IMCA)	33
FFURFLEN 12:	HYSBYSIAD O FARWOLAETH PERSON TRA ROEDD YN CAEL EI AMDDIFADU O'I RYDDID	34

Diolchiadau

Ffurfiwyd Gweithgor Arbenigol Deddf Galluedd Meddyliol 2005 / Y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (MCA/DoLS) i adolygu a symleiddio'r ffurflenni DoLS a chreu casgliad o ffurflenni 'Unwaith i Gymru' i hybu cysondeb. Cafodd Ffurflenni DoLS Cymru eu hadolygu rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Mawrth 2015.

Roedd y Gweithgor Arbenigol yn cynnwys:

<u>Cyd-gadeiryddion</u>	
Liz Majer Dr Graham O'Connor	CBS Blaenau Gwent BIP Hywel Dda
Dr Owain Baker	BIP Hywel Dda
Chris Sayer	BIP Hywel Dda
Patrick Fox	BIP Hywel Dda
Tom Grace	BIP Aneurin Bevan
Jane Randall	BIP Cwm Taf
Pauline Galluccio	Bwrdd Iechyd Athrofaol Powys
Sue Owen	BIP Betsi Cadwaladr
Roger Laidlaw	Rhondda Cynon Taf
Terri Warrilow	ALI Pen-y-bont ar Ogwr
Christopher Phillips	ALI Sir y Fflint
Sue Broad	ALI Caerdydd a'r Fro a BIP Caerdydd a'r Fro
Sue Adams	ALI Conwy
Ian Thomas	Cyngor Gofal Cymru
Lisa Johnston	Advocacy Support Cymru
Jane Burnand	ALI Sir Benfro
Melanie Minty	Fforwm Gofal Cymru
Richard Griffith	Prifysgol Abertawe

Cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch y ffurflenni diwygiedig gydag aelodau o'r Gweithgor Arbenigol a rhwydwaith DoLS Cymru Gyfan (yn cynnwys arweinwyr/ymarferwyr MCA/DoLS). Adolygwyd y sylwadau a dderbyniwyd, a lle roedd modd cawsant eu hymgorffori yn y ffurflenni. Cafodd y ffurflenni eu cadarnhau gan grŵp arweiniol amlasiantaethol MCA/DoLS, dan gyd-gadeiryddiaeth cynrychiolwyr y GIG yng Nghymru a Chyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Hoffem ddiolch i bawb a roddodd eu hamser i gyfrannu i lunio'r ffurflenni newydd.

Rydym hefyd yn ddiolchgar i Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion yn Lloegr a'r Adran Iechyd am rannu eu ffurflenni diwygiedig gyda ni.

Rhagarweiniad

Ers 1 Ebrill 2009 mae'n ofynnol i unrhyw gartref gofal neu ysbyty, sy'n trin neu'n gofalu am berson yn y fath fodd ag sy'n golygu amddifadu'r person hwnnw o'i ryddid, ofyn am awdurdodiad i wneud hynny. Mae'r "Canllaw i Gyrrff Goruchwyllo"¹ a'r "Canllaw i Awdurdodau Rheoli"², (fydd yn cael eu hadolygu a'u diweddarau yn yr un modd), yn egluro'r broses y dylid ei dilyn i gael awdurdodiad.

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys gwybodaeth am y ffurflenni yr argymhellir eu defnyddio yn y broses awdurdodi. Dylid nodi, er nad yw'r ffurflenni hyn wedi eu rhagnodi drwy statud, eu bod wedi cael eu datblygu er mwyn creu ateb 'Unwaith i Gymru' i hybu cysondeb ac eglurder i ymarferwyr, cleifion a theuluoedd. Dyluniwyd y ffurflenni i sicrhau bod y prosesau cywir yn cael eu dilyn yn unol â gofynion y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS).

Ni ddylid cymryd dim yn y canllaw hwn i ddisodli dim yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 na'r Codau Ymarfer statudol ar gyfer MCA a DoLS. Mae'r ffurflenni a'r canllaw newydd yn disodli'r ffurflenni a'r canllaw blaenorol a gyhoeddwyd, dyddiedig Chwefror 2009.

Terminoleg a ddefnyddir yn y canllaw hwn

Drwy'r canllaw hwn i gyd cyfeirir at Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (*Mental Capacity Act 2005*) fel "yr MCA". Lle y ceir cyfeiriadau at statudau eraill, mae'r Ddeddf berthnasol wedi ei dangos yn glir. Mae rhai o'r termau eraill a ddefnyddir yn y canllaw hwn fel a ganlyn:

- y DoLS - oni nodir fel arall mae hwn yn cyfeirio at Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid y Ddeddf Galluedd Meddyliol (fel y darperir yn Atodlen A1 ac 1A i'r MCA).
- yr Awdurdod Rheoli - hwn yw'r person neu'r corff sydd â chyfrifoldeb rheoli dros yr ysbyty neu'r cartref gofal lle mae person eisoes yn cael, neu efallai'n mynd i gael, ei amddifadu o'i ryddid.
- y Corff Goruchwyllo - awdurdod lleol neu fwrdd iechyd lleol sy'n gyfrifol am ystyried cais am amddifadu o ryddid a dderbyniwyd gan Awdurdod Rheoli neu bryderon gan drydydd parti, comisiynu'r asesiadau statudol a, lle mae'n fodlon arnynt, awdurdodi amddifadiad o ryddid.
- y person perthnasol - hwn yw'r person sy'n derbyn gofal neu driniaeth ac a fydd efallai'n cael ei amddifadu o'i ryddid.
- IMCA – Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol yw hwn (a sefydlwyd o dan yr MCA) sy'n darparu cefnogaeth a chynrychiolaeth i berson sy'n brin o'r gallu i wneud penderfyniadau penodol, pan na fydd gan y person unrhyw un arall i'w gynorthwyo. Gellir penodi IMCA mewn sefyllfaoedd penodol eraill.

¹ <https://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=744&pid=36235>

² <https://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=744&pid=36235>

- Cod Ymarfer yr MCA – hwn yw ‘*Cod Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol 2005*³ a gyhoeddwyd yn 2007
- Cod Ymarfer DoLS – mae'n dynodi'r ‘*Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid: Cod Ymarfer i ategu Prif God Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol 2005*⁴ (a gyhoeddwyd ym mis Awst 2008)
- Dyfarniad y Goruchaf Lys (Gorllewin Sir Gaer)⁵ – yn achos “P yn erbyn Cyngor Gorllewin Sir Gaer a Chaer, a ehangodd yn sylweddol y diffiniad o'r rheiny yr ystyrir eu bod yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn ysbytai a chartrefi gofal ac a fydd felly angen awdurdodiadau DoLS. Roedd hefyd yn ehangu cwmpas y rheiny yr ystyrir eu bod wedi eu hamddifadu heb alluedd, oedd yn derbyn gofal gwladol yn y gymuned
- Y “Prawf Asid” – y prawf i benderfynu a yw'r person dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus a heb fod yn rhydd i adael, a'r person yn brin o alluedd i gydsynio i'r trefniadau a ddisgrifiwyd yn Nyfarniad y Goruchaf Lys (Gorllewin Sir Gaer).

³https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/224660/Mental_Capacity_Act_code_of_practice.pdf

⁴http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130107105354/http://www.dh.gov.uk/prod_consum_dh/groups/dh_digitalassets/@dh/@en/documents/digitalasset/dh_087309.pdf

⁵ http://supremecourt.uk/decided-cases/docs/UKSC_2012_0068_Judgment.pdf

Y Ffurflenni DoLS Newydd

Ffurflen Newydd	Ffurflen Flaenorol/Ffurflenni Blaenorol	Enw'r Ffurflen
1	SA1, UA1	Cais Awdurdod Rheoli am Awdurdodiad Safonol ac Awdurdodiad Brys yr Awdurdod Rheoli.
1a	UA2, UA3	Cais gan Awdurdod Rheoli am Estyniad i'r Awdurdodiad Brys
1b	SA2 SA3	Adroddiad am Amddifadiad Posibl o Ryddid gan Aelod o'r Teulu, Cyfaill neu Gefnogwr.
2	SA5	Cais yr Awdurdod Rheoli am Awdurdodiad Safonol Pellach.
3	AS1, AS4 AS6, RP1 RP3	Aseidiadau Oedran, Dim Gwrthod, Lles Pennaf a Dethol Cynrychiolydd.
3a	AS3	Aseiad Galluedd Meddyliol.
4	AS2, AS5 SA8	Aseidiadau Iechyd Meddwl a Chymhwysra
5	SA4	Caniatáu Awdurdodiad Safonol.
6	AS7	Awdurdodiad Safonol heb ei Ganiatáu.
7	SA9, SA10	Atal Awdurdodiad Safonol Dros Dro.
8	RP3	Terfynu Penodiad Cynrychiolydd.
9	SA11	Yr Awdurdodiad Safonol wedi Dod i Ben.
10	SA6, SA7	Adolygiad o'r Awdurdodiad Safonol Presennol.
11	Ffurflen Newydd	Atgyfeiriad yr IMCA.
12	Ffurflen Newydd	Hysbysiad o Farwolaeth Person tra roedd yn cael ei Amddifadu o'i Ryddid.

Yr Awdurdod Rheoli a ddylai ddefnyddio'r ffurflenni a raddliwiwyd uchod a dylai'r gweddill gael eu defnyddio gan y Corff Goruchwylio. Mae ffurflenni 1a a 10 yn cael eu rhannu gan yr Awdurdod Rheoli a'r Corff Goruchwylio.

FFURFLEN 1: CAIS AWDURDOD RHEOLI AM AWDURDODIAD SAFONOL AC AWDURDODIAD BRYN YR AWDURDOD RHEOLI

Crynodeb

Dylid defnyddio'r ffurflen hon pan fydd yr Awdurdod Rheoli yn gwneud cais i'r Corff Goruchwylio am awdurdodiad safonol. Bydd angen awdurdodiad os bydd yr Awdurdod Rheoli yn gofalu am berson neu yn trin person, nad oes ganddo'r gallu i gydsynio p'un a ddylai gael ei letya yn yr ysbyty neu'r cartref gofal perthnasol i'r diben o dderbyn y gofal hwnnw (a'r driniaeth), ac mae'n angenrheidiol gwneud hynny mewn ffordd fydd yn golygu y bydd y person yn cael ei amddifadu o'i ryddid.

Pan fydd y Corff Goruchwylio'n derbyn y ffurflen hon, dylai roi cyfarwyddyd i aseswyr neilltuol i gynnal asesiadau amrywiol er mwyn penderfynu a ddylai awdurdodiad gael ei roi. Mae hi felly'n bwysig bod yr Awdurdod Rheoli yn cwblhau'r ffurflen hon yn llawn ac yn cynnwys cymaint o wybodaeth berthnasol ag sydd modd.

Dylai ail ran y ffurflen hon gael ei chwblhau pan fydd yr Awdurdod Rheoli wedi rhoi awdurdodiad brys i amddifadu'r person perthnasol o'i ryddid ac mae'n gofyn am awdurdodiad safonol gan y Corff Goruchwylio. Ni ddylai'r awdurdodiad brys fod am fwy na 7 diwrnod oni fydd y Corff Goruchwylio wedi ymestyn yr awdurdodiad o 7 diwrnod yn ychwanegol (cyfeiriadau Ffurflen 1a).

Tudalen 1

Cwestiynau arferol ynglŷn â'r person a'r lleoliad gan gynnwys manylion cyswllt yr Awdurdod Rheoli a'r Corff Goruchwylio y dylid anfon y ffurflen ato a manylion y Cyd-drefnydd Gofal/Rheolwr Gofal.

Y cyd-drefnydd gofal yw'r person sy'n gweithredu ar ran darparwr y gwasanaeth iechyd meddwl, sy'n gyfrifol am ei benodi i weithredu fel y cyd-drefnydd gofal. Mae'r cyd-drefnydd gofal yn gweithio gyda'r claf perthnasol a'r darparwyr gwasanaeth i gytuno ar y canlyniadau y mae'r gwasanaethau a ddarperir wedi eu bwriadu i'w cyflawni, paratoi cynllun gofal a thriniaeth ar gyfer yr unigolyn, a goruchwylio ac adolygu'r gwasanaethau a ddarperir a'r canlyniadau a gofnodir yn y cynlluniau hynny.

Y rheolwr gofal fel rheol yw'r gweithiwr cymdeithasol sy'n gyfrifol am becyn gofal unigolyn. Mae'r anghenion cyfathrebu yn cynnwys yr angen am un i gyfathrebu drwy arwyddion, dehonglwr proffesiynol a/neu gymhorthion eraill, er enghraifft, matiau siarad.

Mae'r hanes meddygol perthnasol yn cyfeirio at iechyd corfforol yn ogystal ag iechyd meddwl a'i effaith ar alluedd y claf perthnasol a/neu ei angen am ofal neu driniaeth arbennig.

Tudalen 2

Natur yr amddifadiad o ryddid arfaethedig

Dylid rhoi disgrifiad o'r sail dros ddweud bod y gofal a/neu driniaeth y mae'r person yn ei derbyn o ddydd i ddydd yn golygu ei fod yn cael ei amddifadu o'i ryddid.

Y Prawf ASID: (gweler tudalen 4 am eglurhad).

At hynny, dylid gosod copi o'r Cynllun Gofal ynghlwm wrth y ffurflen hon, a dylai ddisgrifio'r cyfyngiadau sydd eisoes wedi eu sefydlu, neu yr awgrymir eu sefydlu, sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y person yn derbyn gofal a thriniaeth. Os nad ydynt yn y cynllun gofal, dylid rhoi manylion gofal personol, symudedd, meddyginiaeth, cymorth gyda materion ymddygiad, y dewis o ofal a gynigwyd i'r person ac unrhyw driniaeth feddygol a dderbyniodd.

Dylid rhoi disgrifiad pam nad yw dewisiadau llai caeth yn bosibl gan gynnwys risg o niwed i'r person.

Gwybodaeth am bersonau â buddiant ac eraill i ymgynghori â hwy - gan gynnwys eu perthynas â'r person, sy'n cael ei amddifadu o'i ryddid

Rhydd y ffurflen hon restr anghyflawn o'r personau â buddiant ac eraill y byddai aseswyr efallai yn dymuno ymgynghori â hwy. Dylai enwau a chyfeiriadau'r personau gael eu hychwanegu yn yr adran hon.

Tudalen 3

A oes angen cyfarwyddo Eiriolwr Annibynnol Galluedd Meddyliol (IMCA)?

Rhaid ystyried a ddylid cyfarwyddo IMCA ar sail y wybodaeth a roddwyd gan yr Awdurdod Rheoli. Os felly, y Corff Goruchwyllo ddylai wneud yr atgyfeiriad.

Oes yna benderfyniad dilys a pherthnasol ymlaen llaw?

Dylid cynnwys unrhyw benderfyniadau i wrthod triniaeth y mae'r person wedi eu gwneud ymlaen llaw. Gwneir benderfyniadau ymlaen llaw dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Dylid ystyried a oes gan y person benderfyniad wedi ei wneud ymlaen llaw pan gaiff y person ei dderbyn i'r cartref gofal neu'r ysbyty.

A yw'r person yn destun rhyw elfen o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983?

Dylid cwblhau hwn os yw'r Awdurdod Rheoli yn gwybod am unrhyw agwedd ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 sy'n berthnasol i'r person, er enghraifft, os yw'n destun Gwarcheidwaeth. Os felly dylid rhoi'r manylion.

Dymuniadau/teimladau'r person perthnasol

Dylai hyn gynnwys dymuniadau, daliadau a gwerthoedd (presennol a gorffennol) y person perthnasol cyn belled ag y gellir gwybod beth ydynt, ac a ydynt wedi eu bodloni neu beidio.

Bydd yn bwysig nodi a yw'r person yn gwrthwynebu'r gofal a'r driniaeth ar gyfer ei anhwylder meddwl, ac os yw, beth mae'n ei wrthwynebu. Os yw'r person yn gwrthwynebu'r gofal a'r driniaeth ar gyfer ei anhwylder meddwl, ni ellir defnyddio ond Deddf Iechyd Meddwl 1983 i amddifadu'r person hwnnw o'i ryddid.

Llofnodi'r ffurflen

Dylai'r ffurflen gael ei llofnodi a'i dyddio gan y person y mae ganddo'r awdurdod i wneud hynny ar ran yr Awdurdod Rheoli a dylai gadarnhau bod unrhyw bersonau â buddiant wedi cael eu hysbysu am y cais am Awdurdodiad DoLS.

Wedyn dylai'r ffurflen gael ei hanfon at y Corff Goruchwylio.

Tudalen 4

Awdurdodiad brys yr Awdurdod Rheoli

Sylwer: Ni ddylid cwblhau'r rhan hon o'r ffurflen ond pan fydd yr angen am amddifadu o ryddid mor fawr fel ei fod er lles gorau'r person iddo gychwyn tra bydd y cais am Awdurdodiad Safonol yn cael ei ystyried.

Yn y mwyafrif llethol o achosion, dylai fod yn bosibl sicrhau bod cais am Awdurdodiad Safonol wedi cael ei wneud cyn bod angen dechrau amddifadu o ryddid.

Gellir rhoi Awdurdodiad Brys am gyfnod o hyd at saith diwrnod calendr a daw i rym ar yr adeg y caiff ei lofnodi.

Mae'r blychau ticio yn ddigonol gan y dylai'r holl wybodaeth berthnasol fod wedi cael ei rhoi yn gynharach ar y ffurflen.

Dylai'r Awdurdod Rheoli lofnodi a dyddio'r adran awdurdodiad brys ac anfon y ffurflen at y Corff Goruchwylio.

Casglu Data Pwysig

Mae angen y wybodaeth hon i ddibenion monitro.

FFURFLEN 1A: CAIS GAN AWDURDOD RHEOLI AM ESTYNIAD I'R AWDURDODIAD BRYD

Crynodeb

Ni ddylid rhoi estyniad i awdurdodiad bryd ond os oes yna resymau eithriadol pam na ellir ymdrin â'r cais am awdurdodiad safonol o fewn cyfnod yr awdurdodiad bryd gwreiddiol. Caiff yr Awdurdod Rheoli ofyn i'r Corff Goruchwylio ymestyn hyd yr awdurdodiad bryd am uchafswm o saith diwrnod pellach.

Dim ond unwaith y ceir ymestyn awdurdodiad bryd.

Tudalen 1

Gweler nodiadau'r Canllaw ar gyfer Ffurflen 1.

Tudalen 2

Dylai'r Awdurdod Rheoli gofnodi'r rhesymau dros wneud y cais a rhaid rhoi gwybod i'r person perthnasol, yn ysgrifenedig, ei fod wedi gwneud y cais.

Y Corff Goruchwylio sydd i benderfynu beth a olygir wrth resymau eithriadol. Mae Cod Ymarfer DoLS yn datgan, "oherwydd difrifoldeb y materion dan sylw, rhaid i benderfyniad y Corff Goruchwylio fod wedi ei wneud ar sail gadarn ac amddiffynadwy. Er enghraifft, ni fyddai'n briodol fel rheol defnyddio prinder staff fel rheswm dros ymestyn awdurdodiad bryd."

Rhydd Cod Ymarfer DoLS enghreifftiau o pryd y gellid cyfiawnhau estyniad, gan gynnwys pan:-

- nad oes modd cysylltu â pherson y mae angen i aseswr y lles pennaf gysylltu ag ef ac
- na ellir dibynnu ar yr asesiad heb ei fewnbwn ef ac
- y byddai estyniad am y cyfnod a bennwyd yn ei gwneud yn bosibl cysylltu ag ef.

Llofnodi'r ffurflen

Dylai'r ffurflen gael ei llofnodi a'i dyddio gan y person y mae ganddo'r awdurdod i wneud hynny ar ran yr Awdurdod Rheoli. Wedyn dylai'r ffurflen gael ei hanfon at y Corff Goruchwylio.

Dylai'r ffurflen gael ei llofnodi a'i dyddio gan y person y mae ganddo'r awdurdod i wneud hynny ar ran y Corff Goruchwylio.

FFURFLEN 1b: ADRODDIAD AM AMDDIFADIAD POSIBL O RYDDID GAN AELOD O'R TEULU, CYFALL NEU GEFNOGWR

Crynodeb

Cais yw'r ffurflen hon i'r Corff Goruchwylio benderfynu a oes yna amddifadiad o ryddid heb ei awdurdodi a chaiff unrhyw berson, sy'n credu bod y person perthnasol yn cael ei gadw'n anghyfreithlon, ei chwblhau. Cynghorir unrhyw berson sy'n bryderus i drafod ei bryderon gyda'r Awdurdod Rheoli. Efallai y bydd yr Awdurdod Rheoli yn penderfynu gwneud cais am awdurdodiad neu gymryd camau eraill i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Onid eir i'r afael â'r pryderon hyn, yna bydd gan y person hwnnw yr hawl i ofyn i'r Corff Goruchwylio edrych i mewn i'r amgylchiadau y mae'r person hwnnw'n cael ei gadw ynddynt a chadarnhau a oes yna amddifadiad heb awdurdod neu beidio.

Tudalen 1

Gweler nodiadau'r Canllaw ar gyfer Ffurflen 1.

Dylid rhoi manylion hefyd pam y mae'r person sy'n bryderus yn credu bod y person perthnasol yn cael ei amddifadu o'i ryddid. Ni fydd y Corff Goruchwylio yn cyfarwyddo aseswr i wneud ymholiadau pellach ond os bydd yn ymddangos bod sail i awgrymu bod yna amddifadiad o ryddid heb ei awdurdodi. Mae'n bwysig felly i'r ffurflen gynnwys cymaint o fanylion ag sydd modd pam y mae gan y person bryderon ac mae'n gymorth os gellir cefnogi hyn â dogfennaeth berthnasol arall. Caiff awdur y ffurflen barhau ar fwy nag un dudalen os bydd angen.

Dylid cadarnhau bod y person sy'n bryderus wedi gofyn i'r Awdurdod Rheoli newid y trefniadau gofal neu wneud cais am awdurdodiad safonol.

Tudalen 2

Llofnodi'r ffurflen

Dylai'r ffurflen gael ei llofnodi gan y person sy'n adrodd am amddifadiad o ryddid posibl a dylai ddatgan ei berthynas â'r person perthnasol.

FFURFLEN 2: CAIS YR AWDURDOD RHEOLI AM AWDURDODIAD SAFONOL PELLACH.

Crynodeb

Dylid defnyddio'r ffurflen hon pan fydd yr Awdurdod Rheoli yn gwneud cais i'r Corff Goruchwylio am awdurdodiad safonol pellach.

Pan fydd awdurdodiad DoLS yn dod i ben, rhaid i'r Awdurdod Rheoli adolygu a oes ei angen bellach. Mae'n bosibl, ar unrhyw adeg, fod pethau wedi newid ac nad oes ar y person angen amgylchedd mor gaeth bellach. Yn yr achos hwn, dylai'r Awdurdod Rheoli ofyn am 'Adolygiad i ddod ag Awdurdodiad DoLS i ben (Ffurflen 9 - Awdurdodiad Safonol wedi Dod i Ben). Os yw'r Awdurdod Rheoli, fodd bynnag, ar ôl adolygu sefyllfa presennol y person, yn dod i'r casgliad bod angen i'r awdurdodiad barhau, yna dylid gwneud cais am awdurdodiad pellach. Gellir gwneud hyn hyd at 28 diwrnod ymlaen llaw.

Tudalen 1

Gweler nodiadau'r Canllaw ar gyfer Ffurflen 1.

Natur yr amddifadiad o ryddid arfaethedig

Dylid rhoi manylion pam y mae'r person wedi ei amddifadu o'i ryddid i'r graddau bod gofynion y prawf asid yn dal i gael eu bodloni. Dylid ychwanegu'r cynllun gofal presennol, unrhyw fanylion perthnasol eraill a chadarnhad bod personau â buddiant wedi cael eu hysbysu am y cais am awdurdodiad DoLS pellach. Dylid tynnu sylw at unrhyw newidiadau yn y cynllun gofal, gwybodaeth feddygol, ymddygiad y person neu ymwelwyr ers i'r awdurdodiad safonol presennol gael ei roi, a dylid egluro pam y mae angen awdurdodiad pellach.

Sylwer: Mae Rheoliad 13 (3) o'r Rheoliadau Asesu yn darparu os bydd y wybodaeth a roddwyd yn y cais gwreiddiol am awdurdodiad safonol (gan ddefnyddio Ffurflen 1, er enghraifft) heb newid, nad oes angen ei rhoi eto yn y cais am awdurdodiad pellach. Felly, os yw'r wybodaeth yr un fath, ychwanegwch "fel yr eglurwyd yn y cais a wnaed [dyddiad]" yn y blwch perthnasol.

FFURFLEN 3 ASESIAU OEDRAN, DIM GWRTHOD, LLES PENNAF A DETHOL CYNRYCHIOLYDD.

Crynodeb

Mae'r ffurflen hon yn ymwneud â 3 asesiad gwahanol ynghyd â dethol cynrychiolydd. Os na fydd gofynion unrhyw asesiad wedi eu bodloni ni fydd angen cwblhau'r asesiadau sy'n weddill, oni fydd y Corff Goruchwylio wedi eu comisiynu'n benodol.

Tudalen 1

Gweler nodiadau'r Canllaw ar gyfer Ffurflen 1.

Asesiad Oedran

Y dyddiad geni, neu'r oedran a amcangyfrifir os yw'n anhysbys, yw'r asesiad oedran. Os oes yna unrhyw ansicrwydd ynghylch yr adran hon, dylid rhoi gwybodaeth ychwanegol ar ddiwedd y ffurflen.

Tudalen 2

Manylion y rheiny yr ymgynghorwyd, neu nad ymgynghorwyd, â hwy.

Dylid rhoi manylion y rheiny yr ymgynghorwyd â hwy ac, os yn berthnasol, enw unrhyw un na fu modd ymgynghori ag ef/hi a pham.

Dylid nodi'r dogfennau perthnasol sy'n ymwneud â'r asesiad, megis y cynllun gofal cyfredol, nodiadau meddygol, tudalennau cofnodion dyddiol ac asesiadau risg.

Tudalen 3

Asesiad Dim Gwrthod

Rhowch dic os gellwch gadarnhau nad oes Penderfyniad dilys Ymlaen Llaw, Atwrneiaeth Arhosol na Dirprwy ar gyfer lechyd a Lles wedi ei sefydlu (1).

Ticiwch y blwch priodol i nodi p'un a fyddai'r awdurdodiad safonol yn mynd / ddim yn mynd yn groes i benderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth feddygol; neu benderfyniad gan Atwrneiaeth Arhosol neu Ddirprwy ar gyfer lechyd a Lles (2 a 3).

Tudalen 4

Asesiad Lles Pennaf

Crynodeb

Rhaid i Aseswr y Lles Pennaf (ALIP) benderfynu a oes amddifadiad o ryddid yn digwydd, neu'n debygol o ddigwydd. Os mai dyma'r sefyllfa, rhaid cynnal asesiad i weld a yw'r amddifadiad er lles pennaf y person, a yw'n angenrheidiol i atal niwed ac a yw'n ymateb cymesur i debygolrwydd a difrifoldeb y niwed hwnnw (Atodlen A1 paragraff 16).

Materion a gymerir i ystyriaeth a gwybodaeth gefndir

Dylid cadarnhau'r materion y mae Aseswr y Lles Pennaf (ALIP) wedi eu hystyried, gan gynnwys y wybodaeth gefndir a'r wybodaeth hanesyddol yn ymwneud â'r amddifadiad o ryddid presennol neu bosibl. Ar gyfer adolygiad, dylid edrych ar amodau blaenorol a chynnwys sylwadau ar yr amodau a osodwyd o'r blaen.

Barn y person perthnasol

Dylai barn y person perthnasol gynnwys ei ddymuniadau, gwerthoedd, daliadau, yn y gorffennol ac yn awr, ynghyd â'r materion y byddai'n eu hystyried pe bai'n gallu gwneud hynny.

Barn eraill

Dylid cofnodi yma farn y personau â buddiant yr ymgynghorwyd â hwy wrth gynnal yr asesiad mewn perthynas â'r lles pennaf, yn unol â'r MCA.

Tudalen 5

Asesiad y Lles Pennaf (parhad)

A yw'r Person yn Cael ei Amddifadu o'i Ryddid?

Dylai'r aseswr gofnodi ei farn fel 'Ydy' neu 'Nac ydy'. Os nac ydy, yna nid oes angen llenwi gweddill y ffurflen.

Os ydy, dylai'r aseswr roi tystiolaeth fod amodau'r prawf asid wedi cael eu bodloni.

Mae'r elfen **wrthrychol** yn rhoi tystiolaeth o fod yn gaeth mewn lle cyfyngedig neilltuol dros gyfnod o amser, nad yw yn ddibwys.

Dylid dangos tystiolaeth i'r elfen **oddrychol** drwy ddiffyg cydsyniad dilys i gael ei gyfyngu yn yr ysbyty neu'r cartref gofal i dderbyn gofal a/neu driniaeth.

Roedd y lleoliad i gael ei briodoli i'r Wladwriaeth: dylai hyn gynnwys datganiad pam yr oedd hynny, er enghraifft, pan oedd lleoliad y person wedi cael ei gomisiynu gan Fwrdd Iechyd Lleol neu Awdurdod Lleol.

Ar gyfer y rhai sy'n talu drostynt eu hunain, dylid datgan y dyddiad pan ddaeth yr awdurdod lleol yn ymwybodol fod amddifadiad o ryddid wedi bod yn digwydd.

Mae'r amddifadiad yn angenrheidiol er mwyn atal niwed i'r person.

Dylai'r aseswr ystyried pam y mae'r amddifadiad o ryddid yn angenrheidiol i atal niwed i'r person. Dylid rhoi manylion y niwed y gallai'r person ei ddioddef, gydag enghreifftiau dyddiedig i ategu hynny lle bo modd. Dylid rhoi manylion unrhyw niwed gwirioneddol, ei ddifrifoldeb a'r tebygolrwydd iddo digwydd eto.

Tudalen 6

Y dewisiadau lleiaf caeth

Dylid ystyried adran 4 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, Cod Ymarfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a'r holl amgylchiadau perthnasol eraill wrth benderfynu a ddylid darparu unrhyw ofal neu driniaeth mewn ffordd sy'n cyfyngu llai ar hawliau'r person a'i ryddid i weithredu. Dylid rhoi tystiolaeth o'r dewisiadau a ystyriwyd. Yn unol ag arfer gorau, dylai hyn ystyried materion sy'n gysylltiedig nid yn unig ag iechyd ond hefyd â lles emosiynol, cymdeithasol a seicolegol. Dylid darparu dadansoddiad o fanteision a pheryglon pob dewis a nodwyd.

Canlyniad yr Asesiad

Dylai'r aseswr wedyn gadarnhau bod yr amddifadiad o ryddid yn ymateb cymesur, o ystyried y tebygolrwydd y bydd y person, fel arall, yn dioddef niwed a difrifoldeb y niwed hwnnw a'r rhesymau dros y casgliad hwnnw.

Tudalen 7

Nid yw Gofyniad y Lles Pennaf wedi cael ei fodloni

Mae hyn yn cynnwys dwy adran, gydag un adran i gael ei thicio:

- 1) Am y rhesymau a roddwyd uchod, mae'n ymddangos bod y person yn cael, neu'n debygol o gael, ei amddifadu o'i ryddid ond nad yw hyn er ei les pennaf; a
- 2) Nid yw amddifadu o ryddid dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn briodol, ac os na chaiff yr amddifadiad o ryddid ei awdurdodi dan statud arall, mae'r person yn cael, neu'n debygol o gael, ei amddifadu o'i ryddid heb awdurdodiad.

Dylai hefyd argymhell lleisio pryder ynghylch diogelu oedolyn, os oes amddifadiad o ryddid heb awdurdodiad yn debygol o barhau. Dylai'r aseswr drafod y dewisiadau gyda'r Awdurdod Rheoli er mwyn lleihau cyfyngiadau ar unwaith, i osgoi amddifadiad heb ei awdurdodi.

Mae Gofyniad y Lles Pennaf wedi cael ei fodloni

Dylid rhoi'r cyfnod mwyaf, y mae'n briodol i'r person gael ei amddifadu o'i ryddid (dim i fod yn fwy na blwyddyn), gan gynnwys rhesymau. Dylid cadarnhau pryd y dylai'r Awdurdodiad Safonol ddod i rym.

Tudalen 8

Argymhellion Aseswr y Lles Pennaf ynghylch Amodau.

Dylai Aseswr y Lles Pennaf (ALIP) wneud argymhellion ynghylch amodau ac unrhyw amrywiad mewn amodau, os yw'r asesiad yn dilyn adolygiad.

Efallai y bydd gan gyrff goruchwyllo unigol arweiniad ynghylch defnyddio amodau. Dylai ALIP nodi a ddylid ymgynghori ag ef neu beidio os bydd unrhyw rai o'r amodau heb gael eu gosod. Dylid cynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall ar y dudalen hon.

Tudalen 9

Dethol Cynrychiolydd

Dylid gweld a oes gan y person y galluedd i ddethol cynrychiolydd. Os nad oes, efallai y bydd gan rywun arall (Atwrneiaeth Arhosol iechyd a lles neu ddirprwy a benodwyd) yr awdurdod i ddethol cynrychiolydd a dylid rhoi ei resymau ef/hi yma.

Os nad yw'r un o'r dewisiadau hyn yn bosibl, yna dylai Aseswr y Lles Pennaf argymhell Cynrychiolydd Person Cyfrifol (CPC) i'r Corff Goruchwylio. Mae cyfrifoldeb ar ALIP i gadarnhau bod y person a gynigiwyd fel cynrychiolydd yn addas i'r swyddogaeth, pwy bynnag a'i hetholodd.

Yn AJ yn erbyn Awdurdod Lleol [2015] EWCOP 5, penderfynwyd *“it is likely to be difficult for a close relative or friend who believes that it is in P's best interests to move into residential care, and has been actively involved in arranging such a move, into a placement that involves a deprivation of liberty, to fulfil the functions of RPR, which involve making a challenge to any authorisation of that deprivation. BIAs and local authorities should therefore scrutinise very carefully the selection and appointment of RPRs in circumstances which are likely to give rise to this potential conflict of interest.”*

Rhaid i'r person sy'n gweithredu fel Cynrychiolydd Person Cyfrifol (CPC), yn enwedig, sicrhau bod y person perthnasol yn cael ei gynorthwyo i herio ei awdurdodiad yn fuan gerbron y Llys Gwarchod, os yw'r person yn dangos (ar air neu weithred) ei fod yn dymuno gwneud hynny, a p'un a yw'r CPC yn meddwl bod her o'r fath er ei les pennaf neu beidio. Os ydych chi'n ansicr y byddai'r CPC yn gweithredu yn y ffordd hon, ni ddylech ei ddethol i'r swyddogaeth.

Llofnodi'r ffurflen

Dylai'r ffurflen gael ei llofnodi gan Aseswr y Lles Pennaf.

FFURFLEN 3a: ASESAD GALLUEDD MEDDYLIOL

Crynodeb

Asesiad o alluedd meddyliol y person i gydsynio a ddylai gael ei letya neu beidio yn yr ysbyty neu'r cartref gofal perthnasol i'r diben o dderbyn gofal (a thriniaeth). Dylid terfynu'r broses asesu os canfyddir bod gan y person y gallu hwnnw.

Dim ond person sydd hefyd yn gymwys i fod yn Aseswr Lles Pennaf neu aseswr iechyd meddwl ddylai gwblhau'r ffurflen hon.

Tudalen 1

Gweler nodiadau'r Canllaw ar gyfer Ffurflen 1.

Tudalen 2

Manylion y rheiny yr ymgynghorwyd, neu nad ymgynghorwyd, â hwy

Dylid rhoi manylion y rheiny yr ymgynghorwyd â hwy ac, os yn berthnasol, enw unrhyw un na fu modd ymgynghori ag ef/hi a pham.

Dylid nodi'r dogfennau perthnasol yn ymwneud â'r asesiad megis y cynllun gofal cyfredol, y nodiadau meddygol, tudalennau cofnodion dyddiol ac asesiadau risg.

Tudalen 3

Asesiad Galluedd Meddyliol

Dylid rhoi disgrifiad o'r camau a gymerwyd i gynorthwyo'r person perthnasol i gymryd rhan yn y broses benderfynu.

Mae'r Asesiad yn cynnwys dau gam: 1) nodi'r nam neu'r amhariad ar weithrediad y meddwl neu'r ymennydd a 2) pedair elfen y prawf gweithredu.

Dylai'r aseswr gofnodi'n glir pam y mae anallu'r person i wneud y penderfyniad yn ganlyniad y nam neu'r amhariad ar weithrediad ei feddwl neu ei ymennydd.

Tudalen 4

Canlyniad yr asesiad:

Mae'r adran hon yn cynnwys tri dewis ac ni ddylid ticio ond un blwch yn unig.

Llofnodi'r ffurflen

Dylai'r ffurflen gael ei llofnodi gan y person sy'n cyflawni'r asesiad.

FFURFLEN 4: ASESIAU IECHYD MEDDWL A CHYMHWYSTR

Mae'r ffurflen yn ymdrin â 2 asesiad ar wahân, lechyd Meddwl a Chymhwystra. Os na fydd gofynion unrhyw asesiad wedi eu bodloni ni fydd angen cwblhau'r asesiadau sy'n weddill, oni fydd y Corff Goruchwylio wedi eu comisiynu'n benodol.

Tudalen 1

Gweler nodiadau'r Canllaw ar gyfer Ffurflen 1.

Tudalen 2

Asesiad lechyd Meddwl

Dylid cofnodi'r asesiad i weld a yw'r person perthnasol yn bodloni'r gofyniad iechyd meddwl. Dylai'r person perthnasol fodloni'r gofyniad hwn os yw'n dioddef o anhwylder meddwl. Anhwylder meddwl fel y'i diffinnir i ddiben yr MCA yw "unrhyw anhwylder neu anabledd y meddwl". Meddyg cymeradwy adran 12 (dan Ddeddf lechyd Meddwl 1983) yn unig a ddylai gwblhau'r adran hon neu ymarferwr meddygol cofrestredig, y mae'r Corff Goruchwylio yn ystyried bod ganddo'r profiad perthnasol mewn gwneud diagnosis neu drin anhwylder meddwl. Dylai benderfynu a oes gan glaf anhwylder neu anabledd y meddwl yn unol ag ymarfer clinigol da a safonau cydnabyddedig yr hyn a olygir wrth anhwylder neu anabledd.

Wedi nodi'r anhwylder meddwl, gan ddarparu'r rhesymeg a manylion symptomau'r person, ei ddiagnosis a'i ymddygiad, dylai'r aseswr esbonio a yw amddifadu'r person o'i ryddid yn debygol o effeithio ar iechyd meddwl a lles y person ac, os ydyw, i ba raddau. Dylid cyfleu'r wybodaeth hon i Aseswr y Lles Pennaf i gyfrannu i'w asesiad.

Tudalen 3

Asesiad Cymhwystra

Crynodeb

Dylai'r ffurflen hon gofnodi'r asesiad cymhwystra sydd yn rhyngwyneb rhwng y trefniadau diogelu a Deddf lechyd Meddwl 1983. Mewn rhai achosion efallai y bydd Awdurdod Rheoli wedi gofyn am awdurdodiad safonol mewn perthynas â pherson perthnasol sydd hefyd yn destun gofynion Deddf lechyd Meddwl 1983. Dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig yn unig y dylai person perthnasol sydd yn destun Deddf lechyd Meddwl 1983 hefyd fod yn gymwys i ddibenion y trefniadau diogelu.

Dim ond y rheiny sy'n gymwys i gynnal asesiad iechyd meddwl neu asesiad lles pennaf sy'n gallu cynnal yr asesiad cymhwystra (fel y nodwyd yn Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Asesiad, Awdurdodiadau Safonol a Dadleuon ynghylch Preswylid) (Cymru) 2009. Dylent hefyd fod yn gyfarwydd ag Atodlen 1A o'r Ddeddf a chyda pharagraffau 4.41 i 4.51 y Cod Ymarfer.

Cadw dan Ddeddf lechyd Meddwl 1983

Os yw'r person ar hyn o bryd yn cael ei gadw mewn ysbyty dan un o'r adrannau a nodwyd o Ddeddf lechyd Meddwl 1983, nid yw'n gymwys ar gyfer awdurdodiad DoLS nac awdurdodiad Llys Gwarchod. Mae ei hawliau dan Erthygl 5 yn cael eu gwarchod gan y Ddeddf lechyd Meddwl ac mae Rhan 4 y Ddeddf lechyd Meddwl yn rheoli ei driniaeth seiciatryddol.

Caiff ei driniaeth gorfforol ei rheoli gan y gyfraith gyffredin (os oes ganddo alluedd) neu'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (os nad oes). Yn y sefyllfa anarferol, pan fydd triniaeth gorfforol ei hun yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid (e.e. llawdriniaeth toriad Cesaraid orfodol, bwydo gorfodol), bydd angen cais i'r Uchel Lys i apelio at yr awdurdodaeth gynhenid i'w awdurdodi.

Personau sy'n destun Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn y gymuned

Gall person fod yn destun awdurdodiad DoLS a darpariaethau neilltuol y Ddeddf Iechyd Meddwl ar yr amod nad oes gwrthdaro rhwng gofynion y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r cynllun arfaethedig. Er enghraifft, pan fo rhywun yn brin o'r galluedd perthnasol, ac mae i gael i letya mewn cartref gofal am seibiant adran 17, rhyddhad amodol, neu Orchymyn Triniaeth Cymunedol, bydd angen i unrhyw amddifadiad o ryddid gael ei awdurdodi ar wahân dan DoLS. Os nad yw'n bodloni'r chwe asesiad, efallai y bydd angen cyngor cyfreithiol.

Os yw'r person yn destun seibiant 17, rhyddhad amodol, neu Orchymyn Triniaeth Cymunedol, ac mae angen iddo gael ei amddifadu o'i ryddid yn yr ysbyty er mwyn derbyn gofal a thriniaeth sy'n cynnwys, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, driniaeth ar gyfer anhwylder meddwl, ni fydd yn gymwys i DoLS. Felly, bydd angen yn hytrach broses adalw'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Os yw'r driniaeth yn yr ysbyty, fodd bynnag, ar gyfer afiechyd corfforol yn unig, mae'r person yn gymwys ar gyfer DoLS.

Gwarcheidwaeth

Gall person fod yn destun awdurdodiad DoLS a gwarcheidwaeth ar yr amod nad oes gwrthdaro rhwng gofynion y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r cynllun arfaethedig. Sylwer nad yw defnyddio gwarcheidwaeth ei hun yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid; ond mae gan ddwystr y cynllun gofal sy'n cyd-fynd â hynny y potensial i fod. Pan fydd rhywun sy'n destun gwarcheidwaeth angen triniaeth mewn ysbyty mewn amgylchiadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid, mae yn gymwys ar gyfer DoLS, os mai'r pwrpas pennaf yw rhoi triniaeth ar gyfer afiechyd corfforol (hyd yn oed os yw'r person yn gwrthwynebu). Os mai'r pwrpas pennaf yw rhoi triniaeth ar gyfer anhwylder meddwl, mae yn gwrthwynebu (neu byddai'n gwrthwynebu pe gallai) bod yno neu'n gwrthwynebu peth neu'r cyfan o'r driniaeth iechyd meddwl, ac nid oes Atwrneiaeth Arhosol lles na dirprwy yn cydsynio ar ei ran, nid yw'n gymwys ar gyfer DoLS. Felly, byddai'n rhaid ystyried darparu'r trefniadau diogelu angenrheidiol dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Achosion Ysbyty yn unig

Mae hyn yn ymwneud ag ysbytai yn unig, nid cartrefi gofal. Mae'r ffactorau sydd i gael eu hystyried yn cynnwys:

Gall person, sy'n brin o'r galluedd perthnasol i gydsynio neu wrthod mynd i mewn i'r ysbyty, fod yn destun DoLS:

- (a) Os yw'n cael ei gadw ar gyfer triniaeth gorfforol (p'un a yw'n gwrthwynebu neu beidio); neu
- (b) Os yw'n cael ei gadw ar gyfer triniaeth ar gyfer ei anhwylder meddwl ac na ellid ei gadw dan adran 2 neu 3 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl p'un a yw'n gwrthwynebu neu beidio); neu

(c) Os yw'n cael ei gadw am driniaeth ar gyfer ei anhwylder meddwl ac y "gellid" ei gadw dan adran 2 neu 3 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ond nid yw'n gwrthwynebu (neu, os yw'n gwrthwynebu, mae Atwrneiaeth Arhosol Iles neu ddirprwy yn cydsynio i'r hyn y mae yn ei wrthwynebu).

Felly, ni all person, sy'n brin o'r galluedd i gydsynio neu wrthod cael ei dderbyn i'r ysbyty, fod yn destun DoLS os yw'n cael ei gadw am driniaeth ar gyfer ei anhwylder meddwl, y gallai gael ei gadw dan adran 2 neu 3 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, ac mae'n 'gwrthwynebu'.

Triniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddwl

- 'Triniaeth feddygol' sydd i'r diben o liniaru anhwylder meddwl, neu atal yr anhwylder neu un neu ragor o'i symptomau neu ei amlygiadau rhag gwaethygu.
- Mae 'triniaeth feddygol' yn cynnwys nyrso, ymyriad seicolegol ac adferiad a gofal iechyd meddwl arbenigol.
- Gall 'symptomau' ac 'amlygiadau' yr anhwylder meddwl fod yn amlwg ym meddyliau, emosiynau, cyfathrebu, ymddygiad a gweithredoedd y person ac efallai y bydd yn cynnwys profiad yr unigolyn dan sylw o'i anhwylder. Ni fydd pob meddwl neu emosiwn, na phob agwedd ar ymddygiad claf sy'n dioddef o anhwylder meddwl, yn amlygiad o'r anhwylder hwnnw.

'Gwrthwynebiadau'

- Gallai person 'wrthwynebu' os yw'n gwrthwynebu (neu y byddai'n gwrthwynebu pe gallai) cael ei letya mewn ysbyty am driniaeth seiciatrig neu'n gwrthwynebu peth neu'r cyfan o'i driniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddwl.
- Wrth benderfynu a yw'n gwrthwynebu (neu y byddai'n gwrthwynebu pe gallai), rhaid cymryd i ystyriaeth yr holl amgylchiadau cyn belled ag y mae modd gwybod yn rhesymol beth ydynt, gan gynnwys ymddygiad a dymuniadau'r person, ei deimladau, ei farn, ei ddaliadau a'i werthoedd yn awr ac yn y gorffennol (os yw'n dal yn briodol eu hystyried).
- Dylai penderfynwyr wyro ar ochr gofal a, lle bo amheuaeth, gymryd y safbwynt bod claf yn gwrthwynebu.

Y dewis lleiaf caeth

- Dylid rhoi disgrifiad o'r ffordd leiaf caeth o ddarparu'r gofal a'r driniaeth arfaethedig.

Cadarnhad o Gais am Asesiad Deddf Iechyd Meddwl 1983

Os nad defnyddio'r trefniadau diogelu yw'r ffordd fwyaf priodol o sicrhau bod person yn derbyn y gofal a'r driniaeth sydd ei hangen, dylid ystyried, os yn briodol, gofyn am asesiad y ddeddf iechyd meddwl. Dylid rhoi manylion cadarnhad y cais hwnnw.

Llofnodi'r ffurflen

Dylai'r ffurflen gael ei llofnodi gan y person sy'n cyflawni'r asesiad.

FFURFLEN 5: CANIATÁU AWDURDODIAD SAFONOL

Crynodeb

Yr awdurdodiad ffurfiol a roddir gan y Corff Goruchwylio i awdurdodi bod amddifadu o ryddid er lles pennaf y person gan gynnwys y cyfnod o amser y bydd yr awdurdodiad yn para.

Tudalen 1

Gweler nodiadau'r Canllaw ar gyfer Ffurflen 1.

Tudalen 2

Dylid nodi'r dyddiad a'r amser y cychwynnodd yr awdurdodiad ynghyd â'r dyddiad y dylai beidio â bod mewn grym. Dylid rhoi rhesymeg glir am y cyfnod o amser. Os bydd y Corff Goruchwylio yn byrhau'r cyfnod o amser a argymhellwyd gan Aseswr y Lles Pennaf, dylai gynnig esboniad pam, fel bod y rheiny sy'n derbyn yr asesiadau a'r gwaith papur yn gallu deall pam y mae'r cyfnod o amser a ganiatawyd yn wahanol i'r hyn a argymhellwyd gan Aseswr y Lles Gorau.

Dylid rhoi manylion y gofal neu'r driniaeth y mae'r Awdurdodiad Safonol yn galluogi'r person perthnasol i'w derbyn.

Tudalen 3

Yr amodau y mae'r awdurdodiad safonol yn ddarostyngedig iddynt:

Dylai'r Corff Goruchwylio egluro unrhyw amodau a all gynnwys y rheiny a argymhellwyd gan Aseswr y Lles Pennaf ac unrhyw amodau ychwanegol sydd i'w nodi.

Dylid trafod fel rheol gydag Aseswr y Lles Pennaf os bydd eisiau dileu amodau a awgrymwyd gan Aseswr y Lles Pennaf. Dylai'r amodau ymwneud ag amddifadu o ryddid ac ni ddylent fod yn gysylltiedig â materion cynllunio gofal a gall fod yn ddefnyddiol gofyn:

"Pe na châi'r person ei amddifadu o'i ryddid, fyddai arno angen hyn o hyd?"

Os mai "Na" yw'r ateb, mae'n amod ddilys; os mai "Byddai" yw'r ateb mae'n debygol o fod yn ymwneud â chynllunio gofal sylfaenol a heb fod yn gyfreithlon.

Tudalen 4

Gwaith Craffu'r Corff Goruchwylio

Dylai'r Corff Goruchwylio gadarnhau ei fod wedi derbyn asesiadau ac wedi gweld tystiolaeth fod pob gofyniad wedi cael ei fodloni a dylai nodi sut y craffodd ar yr asesiadau. Dylai'r gwaith craffu gynnwys cyfeiriad at:

- pam mae'r awdurdodwr yn cytuno bod amddifadu o ryddid yn digwydd - pa dystiolaeth sydd wedi ei argyhoeddi o hyn
- pa niwed fyddai'n digwydd i'r person fel arall
- pam y mae amddifadu o ryddid yn gymesur â'r niwed hwnnw
- pam nad oes dewisiadau llai caeth ar gael

Dylai'r Corff Goruchwylio hefyd nodi a yw yn dibynnu ar asesiad cyfwerth a gynhaliwyd yn ystod y 12 mis diwethaf a darparu'r dystiolaeth ofynnol.

Penodi Cynrychiolydd

Dylid nodi enw'r unigolyn a gynigiodd benodi'r person yn gynrychiolydd. Bydd hwn naill ai'r person sy'n cael ei amddifadu o'i ryddid, neu berson sy'n gweithredu dan Atwrneiaeth Arhosol Lles, neu Aseswr y Lles Pennaf. Dylai'r manylion hyn fod wedi eu rhoi ar Ffurflen 3.

Dylai'r Corff Goruchwylio hefyd gadarnhau bod y cynrychiolydd yn bodloni'r gofynion cymhwysra. Dylai Aseswr y Lles Pennaf gadarnhau bod y cynrychiolydd yn gymwys, waeth pwy a ddewisodd y cynrychiolydd.

Os methodd Aseswr y Lles Pennaf â chanfod unrhyw un i gyflawni'r swyddogaeth hon, yna dylid talu i berson wneud hyn (a adwaenir fel Cynrychiolydd Person Taledig (CPT)). Ar yr adeg yma, os oes CPT i gael ei benodi, efallai na fydd y Corff Goruchwylio'n gwybod enw'r person a fydd yn cyflawni'r swyddogaeth hon ond y bydd yn gwybod enw'r asiantaeth y bydd yn cyfeirio ati ac felly dylid cynnwys y manylion hyn.

Dylai'r rheiny sy'n llofnodi Awdurdodiadau ar ran y Corff Goruchwylio fod yn effro i unrhyw gynrychiolwyr a ddewiswyd ond nad ydynt yn ymddangos yn gymwys i'r "Awdurdodwr". Yn yr achos hwn rhaid gofyn i Aseswr y Lles Pennaf wneud gwaith craffu pellach.

Tudalen 5

Ail gopi ar gyfer llofnodi

Mae'r dudalen yn ailadrodd y wybodaeth o'r blaen ac yn caniatáu lle i lofnodi. Unwaith y bydd y cynrychiolydd person cyfrifol (CPC) neu'r Cynrychiolydd Person Taledig (CPT) yn derbyn gwaith papur yr awdurdodiad, dylai dynnu, llofnodi a dychwelyd y dudalen gefn at y Corff Goruchwylio.

FFURFLEN 6: AWDURDODIAD SAFONOL HEB EI GANIATÁU

Crynodeb

Dylid cyhoeddi'r ffurflen hon os yw'n glir, ar ôl derbyn rhai neu'r cwbl o'r asesiadau, nad yw'r gofynion wedi cael eu bodloni. Dylid defnyddio'r ffurflen hon hefyd pan fydd rhai, y cwbl neu ddim asesiadau wedi cael eu cwblhau ond mae'r person yn marw neu'n cael ei ryddhau.

Ni ddylid categorio cais am awdurdodiad safonol fel un "wedi ei dynnu'n ôl" ond mewn sefyllfaoedd prin. Er enghraifft:

- pan gafodd cais ei gyflwyno mewn camgymeriad
- pan beidiodd y cais â bod oherwydd mater gweinyddol yn hytrach nag oherwydd mater o sylwedd.
- pan fo awdurdodiad brys newydd gael ei wneud (cyn i unrhyw asesiadau gael eu cynnal) a bod y person wedi marw neu wedi cael ei ryddhau.

Tudalen 1

Gweler nodiadau'r Canllaw ar gyfer Ffurflen 1.

Tudalen 2

Penderfyniad y corff goruchwyllo

Dylai'r Corff Goruchwyllo ddatgan pam y mae wedi ei wahardd rhag rhoi awdurdodiad safonol mewn perthynas â'r person a enwyd a manylu ynghylch y gofynion na chawsant eu bodloni ac na chafodd yr asesiadau eu cynnal cyn i berson gael ei ryddhau neu iddo farw.

Tystiolaeth i waith craffu'r corff goruchwyllo

Dylai'r Corff Goruchwyllo gadarnhau ei fod wedi craffu ar yr asesiadau (os cawsant eu cynnal) ac egluro pam y mae'n cytuno â chanfyddiadau'r aseswyr. Mewn rhai achosion, er na fydd y person efallai wedi ei amddifadu o'i ryddid, gallai fod camau gweithredu a allai ysgogi pryderon ynghylch diogelu oedolyn. Os nad yw Aseswr y Lles Pennaf wedi gwneud hynny eisoes, yna dylai'r Corff Goruchwyllo ystyried beth y dylai ei wneud ynglŷn â hyn.

Mae'n ymddangos bod yna amddifadiad o ryddid heb ganiatâd

Os yw'n ymddangos bod person (yn dilyn adroddiad asesiad y lles pennaf) yn destun neu'n debygol o fod yn destun DoL heb ei awdurdodi, dylai ddatgan hynny. At hynny, dylai'r awdurdodwr ystyried a ddylid gwneud Atgyfeiriad Diogelu Oedolyn.

FFURFLEN 7: ATAL AWDURDODIAD SAFONOL DROS DRO

Crynodeb

Mae'r rheoliadau'n caniatáu atal dros dro awdurdodiad sydd mewn grym eisoes, pan na fydd y person bellach yn gymwys ar gyfer DoLS oherwydd gwrthdaro â Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Tudalen 1

Gweler nodiadau'r Canllaw ar gyfer Ffurflen 1.

Tudalen 2

Rhoi hysbysiad bod yr awdurdodiad wedi ei atal dros dro.

Dylai'r Awdurdod Rheoli roi'r rheswm pam nad yw'r person yn bodloni gofynion cymhwysra'r trefniadau diogelu bellach, a bod y person yn cael ei letya mewn man arall a dylid anfon y ffurflen at y Corff Goruchwylio.

Os bydd y gofynion cymhwysra, ymhen 28 diwrnod, wedi eu bodloni eto a'r person wedi dychwelyd i'r cartref gofal neu'r ysbyty, dylai'r Awdurdod Rheoli hysbysu'r Corff Goruchwylio fel y gellir dileu'r ataliad dros dro a bod yr awdurdodiad mewn grym unwaith eto.

Os nad yw'r person wedi dychwelyd o fewn y cyfnod hwn o amser, dylai'r awdurdodiad beidio â bod mewn grym ar ddiwedd y cyfnod o 28 diwrnod.

FFURFLEN 8: TERFYNU PENODIAD YN GYNRYCHIOLYDD

Crynodeb

Mewn rhai amgylchiadau gallai fod yn angenrheidiol rhoi terfyn ar swyddogaeth y person sy'n gweithredu fel cynrychiolydd. Mae'r seiliau dros derfynu penodiad wedi eu rhestru yn y ffurflen a dylai'r Corff Goruchwylio ddileu fel bo angen. Dylid rhoi'r dyddiad y mae'r penodiad i ddod i ben. Rhaid hysbysu'r cynrychiolydd am hyn cyn iddo ddigwydd a chaniatáu cyfle iddo wneud sylwadau. Rhaid peidio â'i hysbysu'n ôl-weithredol.

Mae swyddogaeth y cynrychiolydd yn un allweddol yn y trefniadau diogelu. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau penodol, dylid rhoi terfyn ar y penodiad hwn, megis:

- Os daw'r awdurdodiad i ben ac na ofynnwyd am awdurdodiad pellach na rhoi un.
- Os bydd y person sy'n cael ei amddifadu o'i ryddid wedi gwrthwynebu i'r person a benodwyd fod yn gynrychiolydd ac mae ganddo'r galluedd i wneud hynny a dymuno bod rhywun arall yn cyflawni'r swyddogaeth;
- Mae derbyniwr neu ddirprwy yn gwrthwynebu, ac mae hyn o fewn ei swyddogaeth, ac mae'n enwi rhywun arall i fod yn gynrychiolydd;
- Mae'r Corff Goruchwylio yn dod i wybod nad yw'r cynrychiolydd yn dymuno parhau gyda'r swyddogaeth bellach neu nad yw yn gymwys i hynny;
- Mae'r Corff Goruchwylio yn dod i wybod nad yw'r cynrychiolydd yn cynrychioli'r person; nad yw'n cadw mewn cysylltiad, nad yw'n ei gynorthwyo'n effeithiol neu nad yw'n gweithredu er ei les pennaf.
- Mae'r cynrychiolydd wedi marw.

Mewn sefyllfaoedd lle mae amheuaeth a yw'r cynrychiolydd wedi cadw mewn cysylltiad neu nad yw'n gweithredu er lles pennaf y person, dylai'r Corff Goruchwylio geisio cael eglurder gan y cynrychiolydd cyn terfynu ei benodiad.

Tudalen 1

Gweler nodiadau'r Canllaw ar gyfer Ffurflen 1.

Tudalen 2 a 3

Dylai'r Corff Goruchwylio roi'r rheswm am y terfyniad.

Dylai'r Corff Goruchwylio hefyd roi'r rhesymau yn llawn os nad yw'r cynrychiolydd yn cadw cysylltiad; os nad yw'n gymwys mwyach; neu os nad yw'n gweithredu bellach er lles pennaf y person.

Dylai'r cynrychiolydd gael ymateb i'r rhesymau a roddwyd ac ychwanegu eglurder erbyn dyddiad a roddwyd ar y ffurflen. Os nad yw hyn yn digwydd, yna dylai'r penodiad gael ei derfynu.

FFURFLEN 9: MAE'R AWDURDODIAD SAFONOL WEDI DOD I BEN

Crynodeb

Dylid defnyddio'r ffurflen hon i gadarnhau bod awdurdodiad wedi peidio â bod mewn grym. Dylai unrhyw awdurdodiad DoLS gael ei adolygu er mwyn ei derfynu neu ei adnewyddu, os oes angen parhau i amddifadu'r person o'i ryddid.

Dylai'r person naill ai barhau i fod angen y mesurau dan sylw sy'n golygu ei amddifadu o'i ryddid a dylid gwneud cais pellach, neu mae rhywbeth wedi newid yn ei sefyllfa neu ei anghenion gofal ac efallai nad oes angen i fesurau o'r fath fod yn eu lle.

Tudalen 1

Gweler nodiadau'r Canllaw ar gyfer Ffurflen 1.

Tudalen 2

Mae'r ffurflen yn ymdrin â'r amrywiaeth o amgylchiadau lle y gallai'r Corff Goruchwylio ddod ag awdurdodiad DoLS i ben.

- Mae'r Awdurdodiad wedi dod i ben - er na ddylai hyn ddigwydd, mae'n bosibl i'r Corff Goruchwylio gael ei hysbysu ar ôl y digwyddiad nad yw person bellach mewn cartref gofal neu ysbyty ac y canfyddir bod yr awdurdodiad DoLS wedi dod i ben.
- Mae'r awdurdodiad wedi cael ei adolygu ac nid yw'r person mwyach yn cyfarfod â'r gofynion i gael ei amddifadu o'i ryddid - os nad yw'r person bellach, yn dilyn adolygiad, yn bodloni'r gofynion, dylai'r awdurdodiad ddod i ben ar y dyddiad hwnnw.
- Mae'r person wedi symud ac mae awdurdodiad safonol newydd wedi cael ei ganiatáu - os bydd person yn symud o gartref gofal neu ysbyty i leoliad cofrestredig arall ac mae'r lleoliad newydd yn gwneud cais am awdurdodiad DoLS, dylai'r cais hwn ddod ag awdurdodiad sy'n bod eisoes i ben. Yn yr achos hwn, nid oes angen i'r Awdurdod Rheoli cyntaf wneud dim.
- Mae'r person wedi marw - unwaith y ceir gwybod am farwolaeth person sy'n destun awdurdodiad, dylid defnyddio'r ffurflen hon i derfynu'r awdurdodiad. Dylid rhoi gwybod i'r Corff Goruchwylio am hyn, a dylid hysbysu'r Crwner a Meddyg Teulu'r person gan ddefnyddio Ffurflen 12.
- Peidiodd y person â chyfarfod â'r gofynion cymhwysra 28 diwrnod o leiaf yn ôl - dylai hyn gysylltu â Ffurflen 7 - Atal Awdurdodiad Dros Dro - ac os yw'r ffurflen hon wedi cael ei chwblhau i atal awdurdodiad dros dro ond os nad yw'r person wedi dychwelyd i'r cartref gofal na'r ysbyty perthnasol o fewn 28 diwrnod, dylai'r awdurdodiad beidio â bod mewn grym a bydd y Corff Goruchwylio'n cadarnhau hyn.
- Mae'r Llys Gwarchod wedi gwneud Gorchymyn bod yr awdurdodiad safonol yn annilys - os oes gan y Llys Gwarchod ran yn yr achos, oherwydd mater amddifadu o ryddid neu ryw fater lles arall, gallai'r Llys ddatgan bod yr awdurdodiad yn annilys. Yn yr achos hwn, dylai'r Corff Goruchwylio derfynu'r awdurdodiad o'r dyddiad a ddywedwyd.
- Mae'r awdurdodiad wedi peidio â bod mewn grym am ryw reswm arall - dylid defnyddio'r adran hon os bydd unrhyw sefyllfa arall yn codi.

FFURFLEN 10: ADOLYGIAD O'R AWDURDODIAD SAFONOL CYFREDOL

Crynodeb

Dylid defnyddio'r ffurflen hon i ofyn i'r Corff Goruchwylio gynnal adolygiad o'r awdurdodiad safonol. Gellid ei defnyddio pan fydd yn ofynnol i'r Awdurdod Rheoli ofyn i'r Corff Goruchwylio adolygu'r awdurdodiad neu pan fo'r person perthnasol neu ei gynrychiolydd yn arfer ei hawl i ofyn i'r Corff Goruchwylio gynnal adolygiad.

Tudalen 1 (i'w llenwi gan yr Awdurdod Rheoli)

Dylai'r adran hon roi manylion yr unigolyn sy'n cael ei amddifadu o'i ryddid a hefyd y person neu'r sefydliad sy'n gwneud y cais am yr adolygiad. Gall y canlynol ofyn am adolygiad:

- Y person perthnasol
- Cynrychiolydd y person perthnasol
- Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol y person (IMCA)
- Awdurdod Rheoli'r ysbyty neu'r cartref gofal perthnasol.

Weithiau gall cais am adolygiad ddod at y Corff Goruchwylio yn ffurf llythyr. Os mai dyma'r sefyllfa, yna dylid trosglwyddo'r wybodaeth am y person sy'n gofyn am adolygiad i'r ffurflen.

Dylid datgan y sail dros adolygiad ar waelod tudalen 1 a chynnwys:

Nid yw'r person mwyach yn bodloni'r gofynion oedran, iechyd meddwl, galluedd meddyliol, lles pennaf neu ddim gwrthod, neu:

Nid yw'r person yn bodloni'r gofyniad cymhwystra mwyach oherwydd ei fod ef yn awr yn gwrthwynebu derbyn triniaeth ar gyfer ei iechyd meddwl yn yr ysbyty ac mae'n bodloni'r meini prawf ar gyfer ei gadw o dan adran 2 neu 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 neu:

Nid y rheswm a nodir yn yr awdurdodiad yw'r rheswm pam y mae'r person yn bodloni'r gofyniad cymhwystra, neu:

Bu newid yn achos y person ac, oherwydd y newid hwnnw, byddai'n briodol amrywio amodau'r awdurdodiad (Nid yw'r sail hon yn berthnasol ond i'r gofyniad lles pennaf).

Tudalen 2

Ceisiadau i adolygu, terfynu neu amrywio amodau amddifadiad o ryddid

Ni ddylai awdurdodiad DoLS ddod i ben yn syml; dylid ei adolygu i ddod ag ef i ben. Eithriad posibl i hyn fyddai os yw lleoliad newydd wedi gofyn am awdurdodiad newydd fel y disgrifiwyd ar dudalen 28.

Yn aml iawn mewn ysbytai a chartrefi gofal, caiff pobl eu rhyddhau heb i unrhyw gamau gael eu cymryd mewn perthynas â'r awdurdodiad. Dylai'r Awdurdod Rheoli ofyn am adolygiad i ddod ag awdurdodiad i ben ar gyfer person sydd ar fin cael ei ryddhau.

Rhaid bod newid wedi digwydd yn amgylchiadau'r person a bod yr Awdurdod Rheoli yn credu y gall y person dderbyn gofal yn rhywle arall. Dylai hyn arwain at benderfyniad lles pennaf a dylai'r Awdurdod Rheoli hysbysu'r Corff Goruchwylio cyn gynted ag y bydd ganddo gynlluniau ar gyfer rhyddhau'r person.

Dylid datgan y dyddiad pan mae'r person i fod i adael a chyfeiriad newydd y person. Dylid cynnwys y cyfeiriad newydd er mwyn penderfynu a oes angen i'r Corff Goruchwylio gysylltu mewn perthynas ag awdurdodiad dilynol. Ynghyd â hwn dylid cynnwys y penderfyniad lles pennaf a wnaed yng nghyswllt y penderfyniad hwn.

Dylai'r ffurflen ddatgan i ddibenion adolygiad pam nad yw mwyach er lles pennaf y person i aros yn y cartref gofal neu'r ysbyty. Dylai hyn ganiatáu i'r Corff Goruchwylio ddod â'r awdurdodiad DoLS i ben gan ddefnyddio Ffurflen 9 – *Awdurdodiad Safonol wedi dod i ben*.

Tudalen 3

Penderfyniad y Corff Goruchwylio gyda golwg ar p'un a oes modd adolygu unrhyw ofynion cymhwys

Dylid cofnodi'r rheswm nad yw'r Corff Goruchwylio yn ystyried bod yna sail ar gyfer adolygiad. Felly, bydd yr awdurdodiad yn aros yn ei le a dylid cofnodi'r dyddiadau. Mae'n bwysig nodi na ddylid ystyried unrhyw adolygiad o awdurdodiad DoLS sy'n bod eisoes ond o fewn y cyfnod penodol o amser.

Pan dderbynnir cais am adolygiad a phan fydd yr awdurdodiad bron â dod i ben, fel arfer mae'n fwy priodol cynghori'r person i wneud cais am awdurdodiad pellach gan ddefnyddio Ffurflen 2, pan ddylid asesu'r holl ofynion eto.

Os yw'r Corff Goruchwylio wedi penderfynu bod y sail wedi cael ei bodloni, dylai fod wedi comisiynu un asesiad o leiaf mewn perthynas â hyn a dylai nodi:

- pa asesiadau a gafodd eu cynnal;
- a gafodd y gofyniad ei fodloni ai peidio;
- y rheswm pam mae'r gofyniad wedi newid.

Canlyniad yr Adolygiad

Mae tri chanlyniad yn bosibl yn dilyn yr adolygiad:

1. Ni chafodd un o leiaf o'r gofynion ei fodloni ac felly dylai'r awdurdodiad safonol ddod i ben a dylid cofnodi dyddiad hynny.
2. Ar sail yr asesiadau a gynhaliwyd, mae'r rhesymau a roddwyd yn yr awdurdodiad safonol pam yr oedd y person yn cyfarfod â'r gofynion wedi cael eu newid a dylent fod wedi eu disgrifio'n gryno yn y tabl uchod ond dylent hefyd gael eu cefnogi gan asesiad llawn.
3. Daeth yr holl asesiadau adolygu a gynhaliwyd i'r casgliad bod y person yn dal i gyfarfod â'r gofynion y maent yn ymwneud â hwy. Felly dylai'r awdurdodiad safonol barhau i fod mewn grym tan y dyddiad a roddwyd yn yr awdurdodiad yn wreiddiol. Dylid ategu'r canlyniad hwn hefyd â newid mewn amodau.

Tudalen 4

Adolygiad o'r Amodau

Pan fydd y Corff Goruchwylio yn penderfynu y dylid adolygu gofyniad y lles pennaf, yn unig oherwydd bod angen newid manylion yr amodau sydd ynghlwm wrth yr awdurdodiad, ac nid yw'r cais am adolygiad yn cynnwys tystiolaeth fod newid sylweddol yn amgylchiadau cyffredinol y person, yna nid oes angen ailasesiad llawn o'r lles pennaf.

Dylai'r Corff Goruchwylio amrywio'r amodau cysylltiedig fel y bo'n briodol. Wrth benderfynu a oes angen ailasesiad llawn, dylai'r Corff Goruchwylio ystyried a oes rhywun yn herio'r sail i'r awdurdodiad, neu natur yr amodau, fel rhan o'r cais am adolygiad. Os bydd yr adolygiad yn ymwneud ag unrhyw un o'r gofynion eraill, neu â newid sylweddol yn sefyllfa'r person o dan ofyniad y lles pennaf, dylai'r Corff Goruchwylio gael asesiad newydd.

Unwaith y penderfynir mai'r amodau yn unig sy'n cael eu hadolygu, mae gan y Corff Goruchwylio ddau ddewis:

1. Gallai ganfod bod newid wedi digwydd yn achos y person, ond nad oes angen newid yn yr amodau oherwydd hyn; neu
2. Bu newid yn achos y person ac o ganlyniad i hynny mae angen amrywio'r amodau ac mae angen eu nodi ar y dudalen hon.

FFURFLEN 11: ATGYFEIRIAD AT EIRIOLWR GALLUEDD MEDDYLIOL ANNIBYNNOL

Tudalen 1

Gweler nodiadau'r Canllaw ar gyfer Ffurflen 1.

Tudalen 2

Math o atgyfeiriad at eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol (IMCA).

Ceir tri math o atgyfeiriad IMCA.

Math 1 – 39A-(y cyfeirir ato yn gyffredin fel IMCA asesu neu awdurdodi)

Mae dau benodiad posibl o dan y pennawd hwn:

1. Pan fydd awdurdodiad brys wedi cael ei roi, neu pan fydd cais am awdurdodiad safonol wedi cael ei wneud, ac mae'r Awdurdod Rheoli yn fodlon nad oes neb y byddai'n briodol ymgynghori ag ef wrth benderfynu beth fyddai er lles pennaf y person (ac eithrio pobl sy'n cymryd rhan mewn darparu gofal neu driniaeth ar gyfer y person mewn swydd broffesiynol neu am dâl), yna dylid penodi IMCA.
2. Mae aseswr wedi cael ei benodi i benderfynu a oes yna amddifadiad o ryddid heb ei awdurdodi neu beidio ac mae'r Awdurdod Rheoli yn fodlon nad oes neb y byddai'n briodol ymgynghori ag ef wrth benderfynu beth fyddai er lles pennaf y person (ac eithrio pobl sy'n cymryd rhan mewn darparu gofal neu driniaeth ar gyfer y person mewn swydd broffesiynol nau am *dâl - sef staff cyflogedig*).

Math 2 - 39C - (cyfeirir ato'n gyffredin fel IMCA llanw)

Mae'r person sy'n cael ei amddifadu o'i ryddid heb gynrychiolydd person perthnasol dros dro ac felly mae angen IMCA i gymryd ei le.

Math 3 - 39D - (cyfeirir ato'n gyffredin fel IMCA yn ôl y galw)

Ceir pedwar defnydd posibl o IMCA o dan y pennawd hwn:

- Mae gan y person sydd wedi ei amddifadu o'i ryddid gynrychiolydd di-dâl sydd wedi gofyn am gymorth eiriolwr
- dylai'r person perthnasol elwa o gael cymorth eiriolwr
- dylai cynrychiolydd y person perthnasol elwa o gael cymorth eiriolwr
- heb gymorth IMCA, byddai'r person / ei gynrychiolydd:
 - yn methu neu'n annhebygol o wneud cais i'r Llys na gofyn am adolygiad neu
 - mae eisoes wedi methu â gwneud hynny pan fyddai wedi bod yn rhesymol i wneud hynny

Os yw'r atgyfeiriad ar gyfer IMCA 39C neu 39D, dylid datgan yma y cyfnod y byddai angen yr IMCA. Dylid nodi yma hefyd unrhyw ddogfennaeth a ddarparwyd.

FFURFLEN 12: HYSBYSIAD O FARWOLAETH TRA ROEDD YN CAEL EI AMDDIFADU O'I RYDDID

Ffurflen yw hon ar gyfer Awdurdodau Rheoli a ddylai hysbysu eu Crwner lleol am farwolaeth pan fo'r person yn destun awdurdodiad DoLS.

<http://www.judiciary.gov.uk/wp-content/uploads/2013/10/guidance-no16-dols.pdf>

Dylid anfon y ffurflen at y Crwner lleol ac anfon copi at y Corff Goruchwylio a gyhoeddodd Awdurdodiad DoLS, unrhyw eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol (IMCA) y rhoddwyd cyfarwyddyd iddo ar gyfer y person, pob person a enwyd gan yr Aseswr Lles Pennaf yn ei adroddiad fel unigolyn sydd â buddiant, a meddyg teulu'r person. Bydd hyn yn arwain at ddwyn yr awdurdodiad i ben.